Prosiect Dulliau Addysgu Cymraeg a Dwyieithog

Cyngor i Reolwyr

Pwrpas y Ddogfen

Mae'r ddogfen hon ar gyfer rheolwyr ac uwch-reolwyr mewn addysg drydyddol sy'n gyfrifol am greu'r amodau strwythurol, polisi a chyllidol ar gyfer darpariaeth Gymraeg a dwyieithog. Mae'n crynhoi tystiolaeth o brosiect Dulliau Addysgu Cymraeg a Dwyieithog ac yn cynnig cyngor ymarferol, gyda ffocws penodol ar gefnogi myfyrwyr llai hyderus eu Cymraeg.

Cefndir

Dros y degawd diwethaf, mae darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg wedi tyfu'n raddol ond yn anghyfartal.

Lle mae yna ddewisiadau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, mae myfyrwyr llai hyderus yn aml yn teimlo bod astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn fwy o fenter (neu "risg"). Yn aml maent yn teimlo nad yw eu Cymraeg yn ddigon dda. Os ydy Deddf y Gymraeg ac Addysg yn llwydo yn ei amcanion, bydd yna lawer mwy o fyfyrwyr sydd â digon o sgiliau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ond sydd heb ddod trwy ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog "traddodiadol". Efallai mai nhw hefyd fydd y genhedlaeth gyntaf o siaradwyr Cymraeg o fewn eu teuluoedd. Er mwyn manteisio'n llawn ar addewid y genhedlaeth newydd yma a hefyd cyrraedd y potensial sydd

eisoes yna, mae angen deall sut i gefnogi myfyrwyr llai hyderus i ddewis y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Yr Ymchwil

Mae yna bedair elfen berthnasol i'r cyngor a gynigir yma:

i. Arolwg o fodelau addysgu apelgar ymysg 137 o fyfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd (77% ohonynt yn llai hyderus).
ii. Adolygiad o lenyddiaeth ryngwladol ar drawsieithu, addysgu drwy grwpiau bach, a dysgu seiliedig ar waith.
iii. Adolygiad o arfer da o ran hyrwyddo dewisiadau i astudio trwy'r Gymraeg ac ieithoedd tebyg pan fo dewis ar gael i fyfyrwyr
iv. Dadansoddiad manwl o synnwyr dysgwyr o berthyn i'w cwrs, eu sefydliad a Chymru.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw ymdeimlad dysgwyr o berthyn i Gymru na chryfder eu hunaniaeth Gymreig neu Gymraeg, ynddynt eu hunain, yn penderfynu a yw myfyrwyr yn dewis astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd llawer o fyfyrwyr nad oeddent yn dewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn parhau i fynegi balchder cryf yn eu Cymreictod, gwerthfawrogiad o'r Gymraeg a chysylltiad cadarn â diwylliant a chymuned Cymru. Fodd bynnag, roedd y Gymraeg yn tueddu i gael ei gweld ganddynt fel rhan bwysig o'u hunaniaeth ddiwylliannol a chenedlaethol yn hytrach nag fel rhan annatod o'u profiad academaidd.

Ar y llaw arall, mae cysylltiad llawer cliriach rhwng ymdeimlad o berthyn i'r cwrs a'r sefydliad a dewisiadau cyfrwng dysgu. Roedd dysgwyr a oedd yn dewis astudio drwy'r Gymraeg yn fwy tebygol o gysylltu'r Gymraeg â'u profiad academaidd

beunyddiol, eu rhyngweithio â chyfoedion a staff, a'u hymdeimlad o gymuned ar y cwrs. Mewn cyferbyniad, roedd myfyrwyr nad oeddent yn dewis darpariaeth Gymraeg yn canolbwyntio'n fwy ar gynnwys y pwnc, llwybrau gyrfa, cymwysterau a chyfleoedd proffesiynol. Mae'r data hefyd yn awgrymu bod hyder ieithyddol ac academaidd, yn enwedig mewn tasgau mwy ffurfiol, yn ffactor pwysig wrth lunio dewisiadau cyfrwng dysgu. Roedd llawer o ddysgwyr yn teimlo'n fwy cyfforddus yn defnyddio'r Saesneg ar gyfer gweithgareddau academaidd ffurfiol er gwaethaf eu cysylltiad cadarn â'r Gymraeg neu â Chymru.

Yn gyffredinol, mae'r canfyddiadau'n dangos bod ffactorau sy'n ymwneud â chyflogadwyedd, datblygiad proffesiynol a pherthnasedd y Gymraeg i yrfaoedd yn dylanwadu'n gryfach ar ddewisiadau cyfrwng dysgu na hunaniaeth genedlaethol neu ddiwylliannol yn unig. Mae hyn yn awgrymu bod cryfhau'r cysylltiad rhwng y Gymraeg, llwyddiant academaidd a chyfleoedd gyrfa yn debygol o fod yn fwy effeithiol wrth gynyddu'r galw am ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog nag apelio at hunaniaeth Gymreig yn unig.

Gan adleisio'r canfyddiadau hyn, mae'r dystiolaeth ryngwladol yn dangos mai'r ymyraethau mwyaf llwyddiannus yw'r rhai sy'n cyflwyno'r iaith leiafrifedig fel rhan naturiol ac annatod o'r profiad academaidd, yn hytrach nag fel opsiwn ychwanegol neu symbol o hunaniaeth ddiwylliannol yn unig. Mae'r dulliau mwyaf effeithiol yn cynllunio ar gyfer dwyieithrwydd ar draws y cwricwlwm a'r sefydliad cyfan, gan gryfhau ymdeimlad myfyrwyr o berthyn, eu hyder ieithyddol ac academaidd, a'u dealltwriaeth o werth y sgiliau ieithyddol hynny ar gyfer eu hastudiaethau a'u gyrfaoedd yn y dyfodol.

Pwyntiau Strategol Allweddol i Reolwyr

1. Arweinyddiaeth a neges sefydliadol glir

Gan fod dysgwyr yn ystyried dewisiadau i ddilyn y ddarpariaeth Cymraeg a dwyieithog yng nghyd-destun ystyriaethau megis cyflogadwyedd, llwyddiant academaidd a llwyth gwaith, mae angen pwysleisio'n gyson fod y Gymraeg yn iaith academaidd a phroffesiynol hyfyw.

Camau strategol posibl:

- Ymgorffori'r Gymraeg a dwyieithrwydd yn strategaethau addysgu a dysgu, cynlluniau cyflogadwyedd ar gyfer dysgwyr a chynlluniau gweithlu'r sefydliad ar gyfer staff.
- Sicrhau bod uwch arweinwyr yn cyfleu naratif clir a chyson wrth gyfathrebu'n fewnol a chyhoeddus.

2. Diffinio a safoni "darpariaeth ddwyieithog"

Mae'r ymchwil yn dangos bod dealltwriaeth dysgwyr o "ddwyieithrwydd" yn amrywio'n sylweddol rhwng darlithoedd, seminarau, deunyddiau ategol ac asesiadau. I ddysgwyr llai hyderus, gall yr amwysedd yma greu pryder ychwanegol.

Camau strategol posibl:

- Cyfrannu at drafodaethau rhanbarthol a chenedlaethol i ddiffinio dwyieithrwydd mewn sefyllfaoedd addysg wahanol (dysgu ar leoliad, seminarau, darlithoedd, gwaith grŵp) ac ar draws pynciau gwahanol.

- Ar sail y diffiniadau hynny, datblygu diffiniadau gweithredol ar gyfer darpariaeth Gymraeg a dwyieithog mewn gwahanol gyd-destunau addysgu ac asesu o fewn y darparwr.
- Sicrhau cysondeb ar draws cyfadrannau, a chyfathrebu clir gyda dysgwyr, er mwyn lleihau ansicrwydd dysgwyr.

3. Cynllunio llwybrau graddol ar lefel rhaglen, nid modiwl unigol

Un o'r canfyddiadau cryfaf yw bod modelau graddol - lle mae disgwyliadau ieithyddol yn cynyddu dros amser - yn llawer mwy apelgar i ddysgwyr llai hyderus na dewisiadau du a gwyn, Cymraeg neu Saesneg ac yn fwy effeithiol na modelau addysgu dwyieithog sydd heb eu cynllunio o ran profiad dysgu. Ni all addysgwyr unigol wneud hyn ar eu pen eu hunain.

Camau strategol posibl:

- Cynllunio llwybrau iaith glir ar draws rhaglenni cyfan (e.e. blwyddyn 1 i flwyddyn olaf), gyda cherrig milltir ieithyddol realistig.
- Alinio dyluniad asesu ar lefel rhaglen i gefnogi'r pontio graddol hwn gan gynnwys ystyried caniatáu i fyfyrwyr ddewis math o aseiniad fel eu bod yn dechrau gyda dulliau sy'n magu eu hyder.

4. Blaenoriaethu pontio a'r flwyddyn gyntaf

Mae tystiolaeth gref fod ymyriadau pontio a phrofiadau cynnar sydd wedi eu strwythuro'n fwriadol yn cynyddu synnwyr dysgwyr o berthyn, eu hyder a chefnogi eu llwyddiant academaidd. Mae hyn yn arbennig o bwysig i ddysgwyr llai hyderus nad ydynt eto'n ystyried astudio drwy'r Gymraeg. Adleisia hyn ganfyddiadau

ymchwil gan eraill o ran pwysigrwydd perthyn i'r brif ffrwd i garfan sylweddol o ddysgwyr wrth iddynt ddewis i astudio trwy'r Gymraeg ai peidio.

Camau strategol posibl:

- Buddsoddi mewn profiadau pontio Cymraeg neu ddwyieithog cyn ac yn ystod y flwyddyn gyntaf.
- Normaleiddio trafod heriau ieithyddol yn gynnar, gan bwysleisio cefnogaeth sefydliadol.

5. Creu'r amodau ar gyfer addysgu effeithiol

Mae addysgu drwy grwpiau bach a thrawsieithu pedagogaidd yn dangos potensial cryf i godi perfformiad a hyder - ond dim ond pan fo'r strwythurau cywir ar waith. Heb gefnogaeth sefydliadol, gall y dulliau hyn atgyfnerthu anghydraddoldebau.

Camau strategol posibl:

- Gosod disgwyliadau sefydliadol ar gyfer strwythuro gwaith grŵp (rolau, cylchdroi cyfranogiad, monitro iaith) fel eu bod yn cynnig profiadau addysgu cynhwysol ac yn cynyddu hyder ieithyddol ac academaidd myfyrwyr.
- Darparu canllawiau a hyfforddiant ar drawsieithu pedagogaidd mewn cyd-destun Cymraeg-Saesneg fel bod myfyrwyr yn defnyddio'r ddwy iaith i atgyfnerthu eu dysgu a'u hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

6. Asesu, mentro (risg) a chyfiawnder ieithyddol

Mae asesiadau yn chwarae rôl ganolog wrth siapio canfyddiad dysgwyr o risg. Mae'r ymchwil yn dangos bod palet eang o asesiadau - o asesu anffurfiol i ffurfiol, ac

asesu dilys sy'n gysylltiedig â'r byd gwaith - yn lleihau pryder ac yn cynyddu parodrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Camau strategol posibl:

- Annog dulliau asesu hyblyg ar lefel sefydliadol a rhaglen.
- Sicrhau bod polisïau asesu yn caniatáu ffocws ar ystyr a rhesymu, nid cywirdeb ieithyddol yn unig.

7. Cefnogaeth strwythuredig, staffio a chydnabyddiaeth

Yr hyn mae dysgwyr yn gwerthfawrogi fwyaf ydy sgyrsiau anffurfiol am eu pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg, ond mae hyn yn gofyn am amser, sgil a chapasiti staff.

Camau strategol posibl:

- Cydnabod addysgu a chefnogi drwy'r Gymraeg wrth ddyfarnu llwyth gwaith, datblygiad proffesiynol ac yn y broses ddyrchafiad.
- Buddsoddi mewn rolau a strwythurau cymorth (e.e. clinigau iaith, mentoriaid, tiwtoriaid personol dwyieithog).

Cyfeirnod llawn

Cyfeirnod llawn: Davies, M., Ahn, M., Young, K., Parry, D., Champion, F. a Mark, H. (2026) Dulliau Dysgu Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog: Modelau Addysgu i Gefnogi Dysgwyr Dwyieithog Llai Hyderus yn eu Dewisiadau Iaith o fewn Addysg Ôl-16 yng Nghymru. Caerfyrddin: Coleg Cymraeg Cenedlaethol.